Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**

—

Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

3 Hydref 2023

Annwyl Peredur

Rwy'n ysgrifennu mewn perthynas ag ystyriaeth barhaus gan Gomisiwn y Senedd o daliadau cymorth 'costau byw' i staff y Comisiwn yn y flwyddyn 2024-25.

Yn dilyn gwaith ymgysylltu â'r Pwyllgor Cyllid yn y flwyddyn 2022-23, gwnaeth y Comisiwn daliadau gwerth £500 i'w staff ar y cyflogau isaf (ar raddau Cymorth Tîm a Swyddog Gweithredol) ddechrau 2023. Mae'r Comisiwn bellach wedi cytuno, fel y nodwyd yn fy llythyr diweddar atoch, i wneud taliad arall, sef £1,500 i'r holl staff cymwys (ar radd Cymorth Tîm i Radd 6). Cefnogwyd y penderfyniad i wneud y taliad hwn gan Undebau Llafur y Comisiwn, ac mae'r Undeb PCS wedi cadarnhau, mewn cydnabyddiaeth, ei fod wedi atal gweithredu diwydiannol a oedd yn rhan o'i anghydfod cyffredinol.

Mae'r Undeb PCS hefyd yn gofyn i'r Comisiwn, fel rhan o'i anghydfod cenedlaethol presennol, ystyried gwneud rhagor o daliadau cymorth byw i'w staff.

Mae'r Undeb PCS wedi nodi yn anffurfiol y gallai'r taliad arall gynnwys swm o £3,000 fesul aelod o staff yn y flwyddyn ariannol nesaf. Tua £1.6 miliwn fyddai'r ddarpariaeth ar gyfer taliad o'r fath i staff y Comisiwn, a fyddai bron yn 4% o gyllideb weithredol y Comisiwn cyn cyllidebau wedi'u glustnodi ar gyfer prosiectau, dwywaith y swm yr ydym yn ei wynebu'r flwyddyn ariannol hon.

Mae Cyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2024-25 a osodwyd gerbron y Senedd wedi cynnwys darpariaeth ar gyfer codiad cyflog blynyddol i staff y Comisiwn dan delerau ein fframwaith cyflog presennol a drafodwyd â'n cynrychiolwyr o Ochr yr Undebau Llafur a'r Comisiwn ac a gymeradwywyd ganddynt; nid yw'n cynnwys darpariaeth ar gyfer codiad cyflog ychwanegol y tu hwnt i'r symiau hynny yn unol â gofynion cyllidebol.  Nid yw trafodaethau wedi'u cynnal eto ynghylch y cais hwn, nac, yn wir, y cytundeb cyflog newydd o 2025 ymlaen. Nid yw'r Comisiwn am achub y blaen ar gasgliadau'r trafodaethau hynny.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

Mae hefyd yn ymwybodol o'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru fel y nodwyd gan y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol yn ei llythyr atom ym mis Awst.

Er gwaethaf hyn, teimlai'r Comisiwn, o ystyried y potensial i gael effaith sylweddol ar ein gallu i ddarparu gwasanaethau'r Senedd pe bai hyn yn dod i'r amlwg, y dylid dwyn hyn i'ch sylw cyn gynted â phosibl. Gan nad yw'r cais wedi'i wneud na'i gytuno'n ffurfiol, ni allwn ei ystyried o fewn ein cyllidebau ar gyfer 2024-25.

Yn gywir,



Ken Skates AS

copi at Gomisiynwyr y Senedd, Manon Antoniazzi

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English